

# Cofrestru gyda EIDCymru



Drwy gofrestru gyda EIDCymru byddwch yn medru:  
**Cael mynediad i'ch symudiadau defaid a geifr; Derbyn symudiadau ymlaen o farchnadoedd a gan ffermwyr eraill; Cwblhau eich Stocrestr Flynyddol; Adrodd am eich symudiadau'n electroneg.**



Cyn defnyddio EIDCymru, bydd angen cofrestru am gyfrif. Bydd angen yr wybodaeth ganlynol arnoch er mwyn eich cynorthwyo i gwblhau'r broses gofrestru:  
**Eich cyfeiriad e-bost; Rhif eich Prif Ddaliad (CPH); Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN) RPW; Rhif diadell chwe digid.**

1

I gofrestru, agorwch wefan EIDCymru [www.eidcymru.org](http://www.eidcymru.org), dewiswch eich iaith, yna pwysu'r ddolen '**Creu eich cyfrif**'.

Fydd angen Prif Rhif eich Ddarperir gan RPW a Rhif D

[Creu eich cyfrif EIDCymru](#)

## Mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein EIDCymru

Enw defnyddiwr neu cyfeiriad e-bost

Cyfrinair

[Anghofio cyfrinair?](#)

**Mewngofnodi**

## Creu eich cyfrif EIDCymru

Os nad oes gennych gyfrif gallwch gofrestru isod.

Fydd angen Prif Rhif eich Daliad (CPH), eich Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN a ddarperir gan RPW) a Rhif Diadell (6 digid a ddarperir gan APHA).

[Creu eich cyfrif EIDCymru](#)

2

Byddwch yn creu enw defnyddiwr unigryw i'r cyfrif. Dewisiwch eich enw defnyddiwr yn ofalus gan y caiff ei weld gan ddefnyddwyr eraill. Mae'n bosib y bydd yr enw defnyddiwr o'ch dewis wedi'i gymryd yn barod (e.e. Jones neu Tygwyn) felly gwnewch yn siŵr ei fod yn hollol unigryw.

Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys. Dim ond ar gyfer **un cyfrif EIDCymru** y bydd yr e-bost hwn yn medru cael ei ddefnyddio.

Yna bydd angen creu cyfrinair sy'n cydymffurfio â'r canlynol

- Yn cynnwys o leiaf 12 nod ac un yr un o'r canlynol:
  - Prif lythyren (A-Z)
  - Llythyren fach (a-z)
  - Rhif (0-9)
  - Nod arbennig (!\*£\$%^ ^ &, ., ?)

Pwyswch '**Cadw a pharhau**' i symud 'mlaen.

## Creu Cyfrif Newydd

Enw defnyddiwr

Ni all gynnwys nodau arbennig

Cyfeiriad e-bost

Byddwn yn cysylltu â chi ar y cyfeiriad hwn

Cyfrinair

Mae'n rhaid i'ch cyfrinair newydd gynnwys o leiaf 12 nod, gan gynnwys o leiaf un o'r canlynol: Priflythrennau (A-Z), Llythrennau bach (a-z), Rhifau (0-9), nodau arbennig (!\*£\$%^ ^ &, ., ?)

Cryfder cyfrinair:

Cadarnhau cyfrinair

**Cadw a pharhau** >

3

Byddwch yn cael eich cyfeirio at dudalen i ychwanegu eich **Prif ddaliad (CPH)** yn y fformat **CC/PPP/HHHH**.

Ychwanegwch gyfeiriad eich fferm. Nodwch fod modd rhoi cyfeiriad cyswllt arall os yw'n wahanol i gyfeiriad y fferm, drwy roi tic yn y blwch.

Pwyswch '**Cadw a pharhau**'.

**Cofrestru prif ddaliad**

Prif CPH yn y fformat CC/PPP/HHHH

Cyfeiriad



Tref

Sir

Cod post

Mae'r cyfeiriad cyswllt yn wahanol

**Cadw a pharhau >**

4

Bydd y dudalen nesaf yn gofyn am fwy o fanylion. Yma bydd angen ichi nodi eich **rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN)**. Bydd eich CRN yn cychwyn gydag **A yna rhif 7 digid**.

Bydd angen i CPH eich Prif Ddaliad a'r CRN gyfateb i'r un cyfrif ar RPW.

Os nad ydych yn gwybod eich CRN, mewn gofnodwch i'ch cyfrif RPW Ar-lein neu cysylltwch gyda RPW ar **0300 062 5004**. Pwyswch '**Cadw a pharhau**'.

**Eich Manylion**

Enw

Rhif Cofrestru Cwsmer (RPW CRN)

Rhif llinell dir

Rhif Ffôn Symudol

Cyfeiriad



Tref

Sir

Côd post

5

Bydd y dudalen nesaf yn gofyn am rif **chwe digid eich Diadell** sydd wedi ei ddarparu gan APHA. Bydd eich rhif diadell yn cychwyn gyda **7 yna rhif 5 digid** a rhaid iddo fod yn brif rif eich diadell sy'n cyfateb i'ch prif CPH.

Pwyswch '**Cadw a pharhau**', yna gwirio fod y manylion i gyd yn gywir cyn pwysu '**Creu eich cyfrif EID Cymru**' ar y dudalen Grynnodeb.

**Cyfrif Cofrestru**

Rhywogaeth

Rhif diadell (rhif 6 digid, a ddarperir gan APHA)

Llaeth/Cig

Llaeth  Cig

Bydd neges yn cael ei hanfon i'ch cyfeiriad e-bost a bydd angen i chi bwysu ar y ddolen yn yr e-bost i gadarnhau eich cyfrif ac i offen y broses gofrestru.

Rydych nawr yn barod i ddefnyddio eich cyfrif EIDCymru.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, defnyddiwch y botwm '**Cysylltwch â ni**' ar y wefan, anfonwch e-bost at **cymorth@eidcymru.org** neu ffoniwch **01970 636959**.